Senedd Cymru
**Ymgysylltu â Dinasyddion**

# Grŵp Cynghori Ar-lein –
## Gweithredu Diwygiadau Addysg
Nodiadau o’r cyfarfod ddydd Iau 14 Mawrth 2024

## Cefndir

Sefydlwyd grŵp cynghori ar-lein fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor: *A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant*? Mae'r grŵp yn cynnwys rhieni a phobl ifanc sydd â phrofiad byw diweddar o gael mynediad at addysg neu ofal plant iddyn nhw eu hunain neu eu plant.

O blith y grŵp cynghori ar-lein, roedd pump o bobl (y *cyfranogwyr* o hyn ymlaen) a thri Aelod o’r Senedd yn bresennol yn y cyfarfod rhithwir. Ychwanegodd cyfranogwr arall ei sylwadau yn ysgrifenedig drwy e-bost ar ôl y sesiwn.

Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar weithredu dwy Ddeddf addysg fawr a basiwyd yn y Senedd ddiwethaf: Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Roedd y sgwrs yn seiliedig ar set o gwestiynau am y pynciau hyn - mae'r cwestiynau mewn print trwm isod. Yn dilyn pob cwestiwn, ceir crynodeb o atebion y cyfranogwyr.

Nid trawsgrifiad yw hwn ond mae’n ceisio crynhoi’r hyn a drafodwyd gan y grŵp cynghori.

Lle cyfrannodd cyfranogwyr yn ysgrifenedig (drwy'r blwch sgwrsio yn ystod y cyfarfod neu drwy e-bost yn dilyn y cyfarfod) gellir gweld hyn mewn blychau llwyd.

*Mae dyfyniadau mewn testun italig.*

## 1. Profiadau o'r systemau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

### [1.1) Beth yw profiadau'r cyfranogwyr o'r systemau Anghenion Addysgol Arbennig ac Anghenion Dysgu Ychwanegol? Beth yw'r prif heriau y mae teuluoedd yn eu hwynebu?

### Mae'r broses asesu yn cael ei gwthio i'r cyrion:

*"Mae yna naratif nad oes angen diagnosis arnoch chi i gael darpariaeth, ond mae dal angen asesiad arnoch chi."*

Mae gwasanaethau iechyd yn cymryd llawer o amser, gyda rhai plant yn gorfod aros am flynyddoedd i gael eu hasesu.

Yn y cyfamser, mae'r cod ADY yn caniatáu asesiadau yn yr ysgol gan staff nad ydynt wedi'u hyfforddi i gwblhau asesiadau ac nad oes ganddynt yr arbenigedd o reidrwydd.

Roedd hyn yn arwain at ddefnyddio strategaethau annigonol ac aneffeithiol i geisio diwallu anghenion y plant. Yn dilyn hyn, roedd anghenion y plentyn yn dal i gael eu disgrifio fel rhai heb eu diwallu.

*"Heb ddiagnosis, defnyddiwyd y strategaethau anghywir a oedd yn niweidiol i gynnydd fy mhlentyn."*

Roedd un o'r cyfranogwr yn teimlo, hyd yn oed gydag asesiad, y byddai'r ysgolion yn dal i ddefnyddio strategaethau anghywir, a bod hyn oherwydd diffyg hyfforddiant ADY gorfodol:

*"Hyd yn oed os oes gennych chi'r asesiadau, mae ysgolion yn dal yn cael defnyddio eu crebwyll eu hunain i wneud pethau fel maen nhw eisiau. Nid oes gan ysgolion yr hyfforddiant angenrheidiol. Nid yw hyfforddiant am ADY yn orfodol."*

Roedd y cyfranogwyr yn synnu at y diffyg rheolaeth sydd gan ysgolion o ran atgyfeiriadau o ystyried eu cyswllt dyddiol â dysgwyr. Disgrifiwyd hwn fel colli cyfle i wella'r system:

*"Mae gan ysgolion ac awdurdodau lleol fynediad anghyfartal at ddarpariaeth y GIG o dan adran 20 o'r Ddeddf. Dim ond awdurdodau lleol all ofyn am help gan y GIG, nid ysgolion. Mae angen edrych ar hyn."*

Dywedodd y cyfranogwyr fod ysgolion ac awdurdodau lleol yn dehongli'r Cod mewn gwahanol ffyrdd. Dywedodd y seicolegydd addysg wrth un cyfranogwr hyd yn oed y byddai canlyniad adolygiad panel eu plentyn *⟩yn dibynnu ar sut mae r panel yn DEHONGLI y cod yn erbyn achos eich plentyn –*

---

*"Dydyn nhw [ysgolion ac awdurdodau lleol] ddim yn deall y system newydd eu hunain."*

*"Mae'n dweud pethau a ddylai fod yn digwydd mewn deddfwriaeth, ond yn syml iawn nid yw hyn yn digwydd yn ymarferol."*

*"Mae'r cod ADY wedi'i ysgrifennu'n wael ac mae'n galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gamddehongli'r gyfraith – ni ddylid caniatáu i hyn ddigwydd."*

Wrth gymharu'r system newydd a'r hen system, dywedodd un o'r cyfranogwyr fod datganiadau yn cael eu tywys gan broses, ac er eu bod yn anodd eu cael, "*roedden nhw n teimlo-n werth chweil– Roeddent yn fwy cadarn*."

---

*"Mae'r system ADY newydd yn frawychus – nid yw'n gadarn, mae'n agored i ddehongliad, a bydd cynghorau'n dadlau nad yw teuluoedd yn ei ddehongli a'i ddeall yn gywir. Bydd cynghorwyr cyfreithiol yn cadarnhau bod y teulu yn gywir ond ni fydd y Cyngor yn cydymffurfio o hyd. "Dyw awdurdodau lleol ddim yn deall y system eu hunain."*

*"Mae'n llawer mwy cymhleth na'r hen system."*

Hefyd, roedd cyfranogwr arall yn teimlo bod yr hen system yn well o ran sicrhau bod yr ysgol neu'r awdurdod lleol yn cymryd camau, gyda'r system bresennol yn ymddangos yn fwy biwrocrataidd a hirfaith.

*"Mae'r system newydd i fod i fod yn haws ond dyw hi ddim. O leiaf gyda'r hen system fe allech chi fynd i'r tribiwnlys pe bai awdurdod lleol yn gwrthod asesu."*

### Dywedodd un cyfranogwr fod diffyg atebolrwydd yn y system newydd a bod hyn yn achosi i rieni gael eu trin yn amhriodol:

*"Atebolrwydd yw'r anhawster mwyaf yn y system hon. Mae'n ymddangos bod neb ac eithrio rhieni yn dwyn unrhyw un i gyfrif."*

## 2. Darpariaeth i nodi ac yna ddiwallu Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol

### [2.1] O'ch profiad chi, pa mor effeithiol y mae ysgolion a/neu awdurdodau lleol yn asesu anawsterau dysgu plant ac yn penderfynu a oes ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig neu Anghenion Dysgu Ychwanegol?

*"Cafodd fy mhlentyn ei wrthod gan 13 lleoliad gwahanol oherwydd ei anghenion, gwrthodwyd diagnosis iddo ac fe aeth hyn ymlaen mor hir [...] Roedd yr awdurdod lleol yn gwadu bod ganddo ADY, gan*

*ddweud nad oes gan blentyn sydd bron yn bedair oed gyda sgiliau cyfathrebu o 12 oed unrhyw anghenion dysgu ychwanegol."*

Mae cyfranogwyr yn disgrifio ysgolion ac awdurdodau lleol fel bod yn aneffeithiol wrth benderfynu a oedd gan blentyn AAA neu ADY.

Profiad un cyfranogwr oedd ei fod yn cael trafferth i ddechrau sgwrs hyd yn oed gyda staff yr ysgol am y posibilrwydd o ADY:

*"Rhywbeth sy'n wirioneddol anodd yw cael cyfle i ddechrau sgwrs. Cymerodd dros flwyddyn i fy mam gael cyfarfod ynghylch darpariaeth ADY ar gyfer fy mrawd oherwydd eu bod yn gwrthod ymateb i'w negeseuon niferus. Yr unig reswm y cafwyd sgwrs oedd oherwydd bod y staff yno ar gyfer noson rieni ac fe wnaethon ni eu cornelu."*

[2.2] O'ch profiad chi, pa mor effeithiol y mae ysgolion a/neu awdurdodau lleol wedyn yn sicrhau darpariaeth i ddiwallu anghenion y dysgwr y nodwyd bod ganddynt anghenion?

Roedd cyfranogwyr yn teimlo, oherwydd bod gan ysgolion yr ymreolaeth i sefydlu'r hyn y maent yn meddwl sy'n berthnasol i gefnogi plant heb ddiagnosis, eu bod yn ei ystyried yn ddigonol. Fodd bynnag, mae cyfranogwyr yn teimlo bod eu plant yn dal i golli cyfle i gael cefnogaeth hanfodol.

*"Bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn gwneud beth maen nhw eisiau."*

*"Rydw i wedi bod yn lwcus iawn oherwydd mae gennym ni ysgolion gwych i fy mhlant nawr, ond rydw i wedi gweld ysgolion gwael hefyd."*

Roedd un cyfranogwr hefyd yn teimlo ei fod yn cael ei anwybyddu gan ei awdurdod lleol:

*“Mae gen i weithiwr achos ond dydyn nhw ddim yn cyfathrebu.”*

3. Dull gweithredu newydd o dan y system ADY

[3.1] Er bod y diffiniad yn aros yr un fath, bu symudiad tuag at ysgolion yn diwallu anghenion dysgwyr drwy ddarpariaeth gyffredinol (darpariaeth sydd ar gael fel arfer i bob disgybl) yn hytrach na Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol, sy’n golygu nad ydynt yn cael eu cydnabod fel disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac nad ydynt yn cael Cynllun Datblygu Unigol. A yw hyn yn rhywbeth yr ydych wedi sylwi arno neu'n ymwybodol ohono?

Roedd cyfranogwyr yn bryderus ynghylch y gostyngiad ymddangosiadol yn nifer y myfyrwyr ag ADY o gymharu ag AAA er nad yw'r diffiniad wedi newid.

Dywedodd y cyfranogwyr fod ysgolion ac athrawon yn cael cyfarwyddyd penodol yn eu hyfforddiant cod ADY i leihau nifer y Cynlluniau Datblygu Unigol. Disgrifiodd un cyfranogwr hyn fel *)ymgais bwriadol i leihau cymorth –*

*“Rydyn ni’n gwybod bod hyfforddiant wedi’i roi i gael gostyngiad o 40 y cant yn niferoedd ADY/AAA.”*

Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod y term darpariaeth gyffredinol yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o leihau niferoedd. Fodd bynnag, roeddent yn dweud nad yw o reidrwydd yn briodol i bob plentyn, ac ar ben hynny, nid oes darpariaeth ar gyfer cyflyrau mwy cyffredin a allai effeithio ar ddysgu, megis dyslecsia, ar gael pan ddylai fod.

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo *)na fydd darpariaethau cyffredinol yn gweithio ‹ os mai dim ond un plentyn yn yr ysgol gyfan sydd ag angen dysgu[efallai na fydd yr ysgol yn gallu buddsoddi yn yr un*

*plentyn hwnnw* . – Roedd rhai cyfranogwyr yn dadlau, er bod y cysyniad yn gwneud rhywfaint o synnwyr, fod darpariaeth gyffredinol yn ymarferol yn caniatáu i ysgolion ddelio'n unffurf ag anabledd a pheidio â chanolbwyntio ar ddysgwyr unigol a'r hyn sydd ei angen arnynt.

## Teimlai un cyfranogwr yn gryf yn erbyn darpariaeth gyffredinol:

*"Mae 'darpariaeth gyffredinol' yn esgus cyfleus fel bod modd diwallu'r anghenion mewn ysgol a heb ddarpariaeth ychwanegol."*

*"Nid yw 'darpariaeth gyffredinol' yn derm a ddefnyddir yn y cod nac yn y ddeddfwriaeth ac felly ni ddylid ei ddefnyddio fel esgus i wrthod ADY."*

[3.2] A ydych yn ymwybodol bod ysgolion yn cadw categori o ddysgwyr sydd angen mwy na'r ddarpariaeth gyffredinol ond nad ydynt ar y lefel a fyddai'n gofyn am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol? O'ch profiad chi, sut y mae ysgolion yn diwallu anghenion disgyblion o'r fath?

## Roedd y cyfranogwyr yn ofni y byddai'r rhai ag anableddau llai dwys yn cael eu gadael allan.

*"Mae un o fy mhlant yn 9 ac mae hi dal yn methu darllen. Rydyn ni'n amau ei bod ganddi ddysclecsia dwys ond mae hyd yn oed cael y lefel honno o gefnogaeth yn hunllef."*

4. Darparu gwybodaeth a chyngor, ac osgoi a datrys achosion o anghytuno

[4.1] Un o nodau datganedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd oedd lleihau lefel yr anghytundeb a'r gwrthdaro rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol ar y

naill law, a rhieni ar y llaw arall. Pa mor llwyddiannus ydych chi'n credu y bu hyn hyd yma?

[4.2] O dan y ddeddfwriaeth sy'n sefydlu'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd, rhaid i awdurdodau lleol drefnu bod gwybodaeth a chyngor perthnasol ar gael i deuluoedd, a rhaid iddynt roi sylw i bwysigrwydd darparu'r wybodaeth a'r cyngor hwn mewn modd diduedd. Pa mor dda y mae hyn yn gweithio?

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod dim cymorth newydd ar gyfer datrys anghydfod er gwaethaf faint o newid sydd wedi bod ym maes AAA / ADY. Ac mae'r hyn sydd ar gael bellach dan ormod o bwysau.

*"Does gan SNAP Cymru ddim digon o adnoddau i ymdopi â'r galw."*

Nid yw cyngor SNAP bob amser yn gyson a phriodol - mae rhai rhieni yn cael cyngor i beidio â mynd i dribiwnlys, pan oedd y rhieni'n teimlo ei fod er lles gorau'r plentyn i wneud hynny.

*"Doedd SNAP Cymru ddim yn gallu darparu cyngor cyfreithiol i'r lefel roeddwn i ei angen [...] dywedwyd wrthyf i dderbyn y Cynllun Datblygu Unigol a gwthio yn ôl arno yn ddiweddarach."*

Nodwyd y gall anghydfodau gostio arian ac felly nid yw'r broses hon yn ariannol hygyrch i bob teulu:

*"Yn aml hefyd mae'n rhaid i rieni dalu am asesiadau preifat i ddarparu tystiolaeth ar gyfer cyfryngu/apeliadau. Mae hyn yn ddrud ac nid yw ar gael i bawb."*

Nid yw SNAP Cymru ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol. Lle nad yw ar gael mae rhieni wedi cael trafferth dod o hyd i gymorth eiriolaeth arall ac wedi gorfod dadlau ynghylch materion heb unrhyw gymorth.

[4.3] Rhaid i awdurdodau lleol hefyd wneud trefniadau gyda'r nod o osgoi a datrys anghytundebau rhwng cyrff addysg a theuluoedd. O'ch profiad chi, a yw'r trefniadau hyn yn eu lle, ac a ydynt yn cael yr effaith a ddymunir?

*“Mae lleisiau rhieni a phlant wedi gwanhau cymaint yn y ddeddf hon.”*

Roedd un cyfranogwr yn teimlo fel hyn oherwydd mai'r unig ffordd i gyflwyno’r thystiolaeth i'r panel a oedd yn penderfynu ar ddyfodol ei phlentyn oedd gwneud hynny drwy'r ysgol neu drwy'r gweithiwr achos. Roedd peidio â gallu cyflwyno’r dystiolaeth eu hunain yn dadrymuso’r rhiant.

---

Dywedodd y cyfranogwyr eu bod wedi gofyn am wasanaethau datrys anghydfod o'r blaen ac nad oeddent wedi derbyn unrhyw rai.

---

Tynnodd cyfranogwr sylw at y ffaith nad yw’r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn gallu ymyrryd pan fo tribiwnlys yn weithredol. Roedd hyn yn golygu bod y teulu yn aros am fwy o amser cyn gallu cael cymorth.

---

5. Cydweithio rhwng y sector addysg a’r gwasanaethau iechyd

[5.1] A oes gennych unrhyw brofiad y gallwch ei rannu ynglŷn â pha mor dda y mae cyrff addysg (ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol) a chyrff iechyd yn cydweithio i gefnogi dysgwyr gyda'u hanghenion addysgol arbennig neu eu hanghenion dysgu ychwanegol?

*“Nid yw cydweithio rhwng iechyd ac addysg yn gweithio.”*

Roedd yn cyfranogwr yn teimlo y byddai cyrff iechyd yn gwrthod pob cais tro cyntaf am ddiagnosis er mwyn gohirio’r broses a lleihau’r niferoedd ar eu rhestrau aros. Roedd yn teimlo na fyddai ysgolion wedyn yn dymuno ailymgeisio gan nad oedd ganddynt yr amser.

---

Roedd gan un cyfranogwr sydd â phlentyn ag anabledd synhwyraidd wedi cael profiad "*llyfn*" o newid o ddatganiad i Gynllun Datblygu Unigol. Fodd bynnag, mae angen arwyddwr dall a byddar ar eu plentyn a dim ond gweithlu medrus bach iawn sydd ar gael.

---

[5.2] Ar hyn o bryd, mae yna gyfnodau hir o aros am asesiadau niwrowahaniaeth, sydd â'r bwriad o lywio penderfyniadau am anghenion dysgwr a'r ddarpariaeth sydd ei hangen. Dywed Llywodraeth Cymru na ddylai ysgolion ac awdurdodau lleol aros am ddiagnosis cyn trefnu darpariaeth o'r fath. A oes gennych chi unrhyw brofiad o senarios o'r fath, neu a oes gennych unrhyw sylwadau yn eu cylch?

Mwy o sylwadau o dan C1.

---

Esboniodd un cyfranogwr, oherwydd bod yr amser aros am ddiagnosis mor hir, bron tair blynedd yn achos ei phlentyn, mae'n debygol y bydd y plentyn wedi gorfod cwblhau ei arholiadau ac efallai hyd yn oed wedi gadael yr ysgol cyn y bydd yn gallu cael diagnosis neu gael mynediad at y cymorth mwyaf addas.

---

6. Pontio rhwng cyfnodau addysg a hyfforddiant

[6.1] A oes gennych unrhyw brofiad neu sylwadau am y broses i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol o bontio rhwng cyfnodau addysg, er enghraifft rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, neu rhwng yr ysgol ac addysg a hyfforddiant ôl-16?

Dywedodd un cyfranogwr yn y sgwrs:

---

*"Mae dysgwyr yn dal i gael eu gadael heb gefnogaeth yn 16 oed pan fydd eu datganiadau'n cael eu cymryd i ffwrdd ac maen nhw'n cael eu gadael heb ddewis ar gyfer eu haddysg bellach."*

*"Mae cymorth yn cael ei wrthod i ddysgwyr ôl-16 yn ôl y syniad nad yw'r broses 'ADY' wedi cael ei chyflwyno yn eu hardal. Mae'n golygu bod dysgwyr yn cael eu gadael heb ddewis o ran eu haddysg bellach a'u gallu i ddewis gyrfa."*

Dywedodd un cyfranogwr a gyfrannodd yn ysgrifenedig ei fod yn bryderus, er gwaethaf cwrdd â'r ysgol y mae'n bwriadu anfon ei blentyn anabl iddi i gael syniad a fyddai'n gallu diwallu anghenion ei blentyn (mae'r plentyn mewn meithrinfa ar hyn o bryd a bydd yn ymuno ag ysgol ymhen blwyddyn), nad oedd yn teimlo bod y cyfarfod yn gadarnhaol nac yn rhoi sicrwydd o'i safbwynt:

*"Rwy'n teimlo bod diffyg dealltwriaeth a hyfforddiant. Fe ges i'r argraff eu bod yn teimlo eu bod yn gwybod mwy nag oeddwn i, sydd efallai yn wir am anghenion a galluoedd ychwanegol eraill, ond nid yn achos fy mhlentyn i […] roed yn gwneud i mi deimlo bod gen i ddim syniad am anghenion ychwanegol, er bod gen i brofiad uniongyrchol o fyw gyda rhywun ag ADY, yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r athrawon yn yr ysgol. Mae hyn wedi gadael blas cas, ar ôl bod yn hapus â'r ysgol yn achos fy mhlentyn hynaf, ond dydw i ddim yn teimlo y byddant yn gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer fy mhlentyn iau, gan fy mod yn cael yr argraff eu bod yn hapus â sut maen nhw'n gwneud pethau a ddim yn teimlo bod angen gwneud gwelliannau (maen nhw'n "mynd gyda'r lli")."*

## 7. Y cwricwlwm newydd i Gymru

[7.1] Beth yw eich profiadau o'r Cwricwlwm newydd i Gymru, sydd wedi'i gyflwyno mewn ysgolion cynradd ac sy'n cael ei gyflwyno fesul grŵp blwyddyn mewn ysgolion uwchradd?

Roedd yn cyfranogwr yn teimlo bod y cwricwlwm newydd yn methu o safbwynt ADY, ond roedd cyfranogwr arall yn teimlo bod gan potensial i natur agored y cwricwlwm newydd, gan ddweud "*gallai fod rhai pethau cadarnhaol i fyfyrwyr ADY*".

[7.2] Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio natur 'gynhwysol' y cwricwlwm newydd a'i fod yn 'canolbwyntio ar y dysgwr', a sut y mae hyn yn galluogi ysgolion i ddiwallu anghenion pob dysgwr yn well, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. A yw hyn yn rhywbeth yr ydych chi'n ei weld, ac a oes gennych unrhyw sylwadau am y cysylltiadau rhwng dull gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r ffordd y mae'r system addysg yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc a chanddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol?

Dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn pryderu y gallai datgysylltiad dyfu rhwng ysgolion mewn perthynas â'r ffordd y maent yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Mae rhai ysgolion yn defnyddio'r cwricwlwm newydd fel esgus i beidio â chynnig darpariaeth wedi'i haddasu ar gyfer plant ag ADY.

> *"Mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei ddefnyddio fel esgus dros 'ddarpariaeth gyffredinol' ac i beidio ag adnabod dysgwyr fel rhai ag ADY."*

> Dywedodd un cyfranogwr a oedd yn cyfrannu'n ysgrifenedig ei fod yn teimlo y collwyd cyfle mawr yn ddiweddar i gynnwys a dathlu

anabledd yn ysgol eu plentyn hynaf, nad yw'n anabl. Roedd y rhiant wedi gofyn i bennaeth yr ysgol a allai eu plentyn wisgo sanau o wahanol bâr ar gyfer Diwrnod Syndrom Down y Byd.

*“Ei ymateb oedd eu bod yn cefnogi tair elusen yn unig (un yn lleol, un yn genedlaethol ac un yn rhyngwladol) eleni, ac felly na fyddent yn ystyried cefnogi unrhyw elusennau neu achosion eraill, oherwydd eu bod yn ymwybodol o’r baich ariannol ac emosiynol y gall hyn ei achosi. Ond dydw i wir ddim yn gallu gweld sut mae'r cais hwn yn faich i neb, yn enwedig gan mai sanau o wahanol bâr yw'r peth hawsaf i'w drefnu. Afraid dweud, fe wnaeth digonedd o blant eraill eu gwisgo ar y diwrnod beth bynnag, gan na wnaeth yr ysgol gyfathrebu o gwbwl am beidio â dathlu Diwrnod Syndrom Down y Byd, ar wahân i gyfathrebu â mi yn uniongyrchol […] Roedd hyn yn teimlo’n wahaniaethol. Mae'r ysgol yn ymwybodol bod gan fy mhlentyn ieuengaf y cyflwr ac felly roeddwn i’n meddwl y byddai'n dda paratoi'r ysgol cyn iddi ddod. Rwy’n ypset hefyd gan fy mod yn teimlo bod hyn yn anfon y neges anghywir at fy mhlentyn hynaf a oedd am ddathlu ei chwaer a'i ffrindiau rydyn ni'n eu hadnabod â syndrom Down. Mae’n teimlo eu bod yn anfon neges nad ydyn nhw eisiau fy mhlentyn ieuengaf yn yr ysgol gan nad ydyn nhw’n fodlon ei dathlu ar gyfer fy merch hynaf.”*

Byddai’r rhiant wedi hoffi pe bai’r ysgol yn fwy deallgar ac ymwybodol o’r neges yr oedd hyn yn ei chyfleu, gan eu bod yn teimlo bod manteision mawr i amlygu gwahaniaethau o fewn cymunedau, fel bod cymdeithas yn normaleiddio’r gwahaniaethau hyn ac yn lleihau’r siawns o stereoteipio, camddealltwriaeth a bwlio.

## 8. Unrhyw faterion neu sylwadau eraill

Mae croeso i chi rannu unrhyw safbwyntiau perthnasol eraill yn ymwneud â diwygio ADY a'r ymchwiliad hwn.

Eglurodd cyfranogwr sut yr oedden nhw a'u partner wedi colli eu gyrfaoedd oherwydd diffyg cefnogaeth i ddiwallu anghenion eu plant mewn lleoliadau addysg. Roeddent yn egluro bod cynifer o deuluoedd y maent bellach yn eu cefnogi'n anffurfiol drwy rwydwaith rhieni *)yn ysu i weld newid yn y system addysg –*

*"Roeddwn i'n nyrs, collodd fy mhartner ei fusnes, a hyn oll oherwydd bod angen i ni ddiwallu anghenion ein plant."*

Roedd un cyfranogwr yn teimlo, er iddo gyfrannu at y camau ymgynghori cyn diwygio addysg, ei fod ef, a theuluoedd eraill, wedi rhagweld y byddai'r problemau hyn yn codi. Roeddent yn teimlo felly y gellid bod wedi osgoi rhai o'r problemau a gafodd eu crybwyll heddiw pe bai rhywun wedi gwrando arnynt eisoes.

Fe'i hystyriwyd yn anfantais na all rhieni bellach enwi pa ysgol yr hoffent i'w plentyn ei mynychu.

Trafodwyd safoni unffurf fel mater enfawr i fyfyrwyr ADY ac yn rhywbeth na fyddai llawer o ysgolion yn hyblyg yn ei gylch.

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo mai dim ond os oes gennych chi brofiad y gallwch chi lywio'r system newydd.

*"Mae gan y diwygiadau fwriadau da ond mae wedi gwneud popeth yn waeth [...] Mae pob rhiant ar eu pen eu hunain, ac mae'n rhaid i bob rhiant fod yn fyddin o un."*